# Newyddion y DBS – Gorffennaf 2015 Print Bras

## [Introduction] Canolfan Ragoriaeth: beth fydd eich taith yn golygu i chi

gan Adriènne Kelbie, Prif Weithredwr

*Ein cenhadaeth yw bod yn ganolfan rhagoriaeth y llywodraeth ar gyfer gwybodaeth addasrwydd*

Byddwch wedi gweld o Gynllun Strategol y DBS ein bod yn awyddus i fod yn ganolfan ragoriaeth erbyn 2017. Ond beth mae hynny'n ei olygu? Dyma esboniad Prif Weithredwr y DBS, Adriènne Kelbie:

Mae diogelu, yn ddigon teg, yn bwnc llosg ar hyn o bryd. Rydym oll wedi'n harswydo gan y sgandalau sydd wedi arwain at Ymchwiliad Goddard, ac yn gwybod ein bod angen gwneud mwy i ddiogelu ein plant ac oedolion bregus. Hyn sy'n ein hysgogi, pob un diwrnod, i fodloni anghenion cyflogwyr, ymgeiswyr a'r cyhoedd yn well. Nid yw sefyll yn stond yn opsiwn.

Dyma pam ein bod yn ymroddedig i fod yn ganolfan ragoriaeth. Rydym eisiau bod yn well o ran popeth a wnawn; eich darparu â gwasanaethau cyflymach, lleihau gwallau, gwella ein gwasanaeth i gwsmeriaid, ac osgoi cynyddu ffioedd. I wneud hyn rydym angen uwchraddio ein technoleg, a fydd ynddo'i hun yn gwella'r gwasanaeth diweddaru, ac yn creu mwy o ddewis ar-lein.

Rwy'n ymwybodol iawn fod oedi yn cael effaith fawr ar ein Cyrff Cofrestredig a'u hymgeiswyr. Rydym wedi cymryd dipyn o gamau i wella ein cyflymder o ran prosesu ceisiadau. Felly eleni, rydym wedi gosod targed mwy cadarn i ni mewn ymateb i'ch adborth.

*Ym Mai, fe gyflwynom broses ffôn newydd, a gafodd effaith uniongyrchol ar ein gwasanaeth i gwsmeriaid. Ymhlith yr enghreifftiau, mae cyfartaledd cyfradd gadawiad ein llinell alwadau wedi gostwng 45% ym Mai a 50% eto ym Mehefin – nawr i lawr i 2% sy'n rhagori ar ein targed o 5%.*

Y prif reswm dros oedi gyda cheisiadau yw rhai o'n hunedau heddlu, ac rydym wedi blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer y pum heddlu sydd wedi cael anhawster yn y misoedd diwethaf. Rydym yn gwybod bod hyn yn gweithio, oherwydd mae ein hamserau dychwelyd yn gwella, ac mae cwynion wedi lleihau 55% mewn dim ond 3 mis.

*Gostyngodd cwynion am oedi heddlu 55% mewn dim ond 3 mis*

Mae cywirdeb hefyd yn allweddol i'n diben. Mae ein timau Cefnogaeth Ansawdd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn bodloni'r safonau uchel iawn yr ydym yn gosod i ni'n hunain – ac yn cynnal ein hardystiad ISO 9001 ar gyfer prosesau System Rheoli Ansawdd cynhyrchu datgeliad a gweithrediadau rhwystro. Mae'n galw am gydbwyso

gofalus; ond fe wyddom fod canlyniadau o ansawdd, dibynadwy ynghyd â phroses gyflym yn eich helpu i wneud penderfyniadau cyflogaeth gwrthrychol ar yr wybodaeth addasrwydd gywir.

Ac i'n helpu i wneud pethau'n iawn, rydym wedi gofyn i nifer ohonoch gymryd rhan yn ein harolwg Ipsos MORI. Diolch i chi am gymryd amser i ddweud beth sy'n bwysig i chi. Dywed 89% ohonoch ein bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddiogelwch y cyhoedd – ardystiad gwirioneddol o'n diben. Ac er ein bod yn falch iawn gyda'r canlyniadau, rydych hefyd wedi rhoi digon i ni weithio arno, yn amlygu a blaenoriaethu meysydd ffocws.

Gobeithiaf y byddwch yn dal i rannu'ch syniadau, mewn arolygon yn y dyfodol a thrwy gysylltu ar unrhyw adeg. Bydd gwrando arnoch chi yn ein helpu i wella'r gwasanaeth a ddarparwn i chi, y llywodraeth, ein cwsmeriaid – a'r cyhoedd yr ydym yn gweithio mor galed i'w ddiogelu. Diolch i chi am wneud gwahaniaeth.

Gyda dymuniadau gorau

Adriènne Kelbie

## Trawsnewidiad digidol: camau nesaf i'r dyfodol

gan Tom Finnigan, Pennaeth Rhaglen

Un o'n prosiectau mwyaf ar hyn o bryd, fel y gwyddoch o bosibl, yw lansiad ein porth ar-lein. Dyma Tom Finnigan i esbonio beth fydd y newid digidol yn ei olygu i chi

Efallai'ch bod yn gyfarwydd â'r term 'Digidol yn Ddiofyn', sy'n golygu bod nifer o gyrff cyhoeddus a gwasanaethau'r llywodraeth yn newid i amgylchedd digidol. Enghraifft ddiweddar y mae nifer ohonom yn gyfarwydd â hi yw trosiant llwyddiannus iawn y DVLA o ddisgiau treth papur i wasanaethau treth car ar-lein – yn ddiogel, yn sicr ac yn effeithiol.

Ar gyfer y DBS, mae'r broses yn debyg iawn. Bydd lansiad ein porth yn dod â nifer o fanteision, gan gynnwys llwybr ymgeisio atodol i bapur ac e-swmp: y dewis i gyflwyno ceisiadau DBS yn ddigidol.

Ac mae yna fwy.

*Tua dwy flynedd yn ôl, datgelodd arolwg gan y llywodraeth bo tystysgrifau digidol y DBS ar brif restr dymuniadau ymgeiswyr – bydd y rhain ar gael iddynt trwy'r porth.*

# Newyddion y DBS – Gorffennaf 2015 Print Bras

Fel Corff Cofrestredig, Heddlu neu Geidwad y Gofrestr, byddwch yn elwa o arbedion effeithlonrwydd i'ch busnes a gwell mynediad at ein gwasanaethau. Ond byddwch hefyd yn gweld gwelliannau yng nghyflymder, ansawdd a diogelwch yr wybodaeth a broseswn ar eich rhan. Byddwn hyd yn oed yn gyflymach gyda'n hamserau dychwelyd tystysgrifau, yn fwy cywir a hyd yn oed yn fwy trylwyr yn ein penderfyniadau atal.

*Rydym yn gwrando ar eich adborth am y gwasanaeth diweddaru ac eisoes wedi gwneud rhai gwelliannau. Bydd y porth newydd hwn yn dod â newidiadau pellach i fodloni eich anghenion yn well.*

Bydd cydweithredu a rhannu gwybodaeth gyda'n partneriaid ac asiantau eraill hefyd yn dod yn fwy effeithiol, gyda data ar flaenau ein bysedd.

Heb os, bydd hyn yn cael effaith bositif ar y deilliannau ar gyfer eich ymgeiswyr – a'r bobl y maent yma i'w diogelu.

Wrth i ni nesáu at y cyfnod profi, dros yr wythnosau nesaf byddwn yn gofyn i rai ohonoch i gymryd rhan yn fwy.

Fe wyddom eich bod eisiau cael gwybod mwy a byddwn yn rhannu mwy am sut y byddwch yn elwa o'r porth a'r newidiadau i'n cynnyrch a gwasanaethau presennol yn fuan.

Yn y cyfamser, chwiliwch am ddiweddariadau pellach yn y rhifyn nesaf o newyddion y DBS, bwletinau e-bost a'n gwefan www.gov.uk/dbs

---

## O'r rhwydwaith: cydweithredu ar waith

---

gan Linda Hackett, Cynghorydd Polisi Gweithredol

Gall ysgrifennu canllaw recriwtio diogel fod yn faes cymhleth. Mae ein tîm Polisi yn aml yn gweithio gyda sefydliadau eraill i gael pethau'n iawn. Dyma Linda Hackett i esbonio sut

Rydym wedi cefnogi nifer o sefydliadau i ddatblygu canllaw yn y gorffennol, yn cynnwys yr Adran Addysg, Cyflogwyr y GIG a'r Adran Iechyd.

Enghraifft dda yw 'Recriwtio yn ddiogel a theg: canllaw ymarferol i gyflogi cyn droseddwyr' – un o'n cydweithrediadau mwyaf diweddar gyda'r elusen lleihau troseddau, Nacro. Wedi ei gyhoeddi ym Mai, mae'r canllaw hwn yn offeryn gwych i gyflogwyr recriwtio'n ddiogel a hyderus wrth ystyried unigolion gyda chofnodion troseddol.

Os ydych chi'n datblygu canllaw recriwtio diogel sy'n effeithio ar sbectrwm eang o gyflogwyr ac unigolion, ac yn meddwl eich bod angen help, anfonwch e-bost at customerservices@dbs.gsi.gov.uk i weld a allwn ni gynnig cefnogaeth.

## Perfformiad yr heddlu – beth ydym ni'n ei wneud i leihau oedi

gan Ian Johnston, Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgeliad)

Ers dechrau'r flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n Hunedau Datgelu'r Heddlu (PDUs) i ddelio ag oedi wrth gwblhau gwiriadau DBS. Dyma Ian Johnston i esbonio beth ydym ni'n ei wneud i leihau wella perfformiad yr heddlu

Fe wyddom fod oedi gyda gwiriadau DBS yn cael effaith ar eich busnes. Mae'r rhan fwyaf o'r cwynion a dderbyniwn gan ein partneriaid ac ymgeiswyr yn ymwneud ag amserau dychwelyd yn gysylltiedig i berfformiad diffygiol yr heddlu.

Er bod y mwyafrif helaeth wedi cyflawni eu targedau ar gyfer prosesu gwiriadau datgelu, mae nifer fechan o PDUs dal angen gwella.

Gall perfformiad PDU amrywio'n fisol, a gellir cysylltu ôl-groniadau i un – neu fel arfer cyfuniad – o'r canlynol:

- amrywiaethau mewn galw ar gyfer gwiriadau DBS, uwchlaw a throsben niferoedd a ragwelwyd
- materion recriwtio a dargadw lleol
- Newidiadau i systemau, ychwanegiadau, uwchraddiad, newidiadau technegol a deddfwriaethol i brosesau ac arferion

Felly, beth allwn ni wneud i helpu trwsio hyn? Mae ein tîm heddlu ymroddedig yn gweithio'n agos gyda PDUs sy'n tanberfformio i ganfod datrysiadau tymor byr a hir i'r materion hyn.

Gyda'n gilydd, a gyda chefnogaeth y Swyddfa Gartref, rydym wedi creu cynlluniau gwelliant i unioni pethau.

Ymysg rhai o'r mesurau yr ydym yn cymryd mae:

- gwella hyfforddiant, recriwtio a dargadw staff, yn ogystal â hyfforddi staff o heddluoedd eraill, i ddarparu trefniant wrth gefn a chefnogaeth i leihau'r ôl-groniad

- symleiddio systemau a phrosesau PDU i sicrhau allbwn cyflym, effeithlon ac o ansawdd – a chyflwyno cynlluniau peilot i asesu deilliannau, cyn cyflwyno i'r holl heddluoedd

- cynyddu materion i Brif Gwnstabliaid, ble fo angen

Fe wyddom ei fod eisoes yn gweithio. O'r 5 PDU sy'n tanberfformio, mae 3 nawr wedi bodloni eu lefelau gwasanaeth a gytunwyd ac ar y ffordd i wella erbyn diwedd y chwarter hwn. Mae cwynion yn ymwneud â pherfformiad diffygiol gan yr heddlu wedi lleihau o 304 yn Chwefror, i 138 ym Mai – lleihad calonogol iawn o 55% mewn dim ond 3 mis.

*O'r 5 PDU sy'n tanberfformio, mae 3 nawr wedi bodloni eu lefelau gwasanaeth a gytunwyd ac ar y ffordd i wella erbyn diwedd y chwarter hwn*

*Mae cwynion yn ymwneud â pherfformiad diffygiol yr heddlu wedi lleihau 55% mewn 3 mis*

*Rydym yn ariannu 7 cyflogai llawn amser atodol ar gyfer un o'r PDUs sy'n tanberfformio. Yn ystod Mawrth, fe gaeodd y PDU hwn 3,110 o geisiadau yn fwy na'u lefelau allbwn disgwyliedig*

Dim ond y dechrau yw hyn. Byddwn yn dal i weithio gyda PDUs i wneud popeth posibl i leihau oedi pellach ac i sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i chi – a'ch ymgeiswyr.

Cadwch lygad ar sut mae pethau'n mynd trwy edrych ar ein canlyniadau perfformiad yr heddlu, a gyhoeddir yn fisol ar ein gwefan.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu sylwadau am ein gwaith gyda PDUs, cysylltwch â'n Tîm Cyswllt yr Heddlu trwy anfon e-bost at policeliaisonteam@dbs.gsi.gov.uk

## Gwella eich profiad – diolch i chi am ddweud eich dweud

gan Suzanne Gordon, Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Ymchwiliadau

Fe wyddom fod ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth i gymaint o bobl – ond roeddem eisiau rhoi hyn ar brawf. Felly ym mis Mawrth, fe gynhaliom ein harolwg boddhad cwsmeriaid annibynnol cyntaf erioed gydag Ipsos MORI. Dyma Suzanne Gordon i rannu'r canlyniadau

# Newyddion y DBS – Gorffennaf 2015 Print Bras

*Mae 85% o'n cwsmeriaid yn fodlon*

Diolch i bawb ohonoch sydd wedi rhannu eich barn yn ein harolwg diweddaraf – cawsom ganlyniadau gwirioneddol bositif y gallwn nawr adeiladu arnynt. Rydym yn falch i rannu bod 89% ohonoch yn dweud ein bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddiogelwch y cyhoedd, trwy helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau addasrwydd a diogelu gwybodus. Mae'n galonogol iawn i gael cymaint o ardystiad a dilysiad annibynnol gan ein cwsmeriaid.

Fe dderbyniom ymatebion gan dros 2,500 o gwsmeriaid a chyflenwyr. Daeth ymatebwyr o bell ac agos, ar draws ein swyddogaethau datgelu a gwahardd, gan gynnwys ymgeiswyr datgelu, unigolion a gyfeiriwyd, Cyrff Cofrestredig, sefydliadau sydd wedi cyfeirio pobl i'w hatal, cyflogwyr ac adrannau eraill y llywodraeth.

*Dywed 89% o gwsmeriaid ein bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddiogelwch y cyhoedd, trwy helpu cwsmeriaid i wneud penderfyniadau cyflogaeth ac eraill effeithiol*

Fe wyddom fod:

- Mae 85% o'n cwsmeriaid, ar draws datgelu a gwahardd, yn fodlon
- 94% ohonoch yn dweud ein bod yn broffesiynol
- 95% ohonoch yn dweud ein bod yn gwrtais
- 73% ohonoch yn ystyried cyflymder i fod yn bwysicach na chost
- y rhai oedd yn anfodlon yn bennaf yn ymgeiswyr oedd wedi aros amser maith am eu tystysgrifau DBS

Mae gennym hefyd rai syniadau gwych i'n helpu i wella yn y meysydd sy'n bwysig i chi.

**Beth nesaf?**

Rydym wedi gwrando – ac rydym eisiau gweithredu'n gyflym ar yr adborth gwerthfawr yr ydych wedi ei rannu gyda ni.

Rydym eisoes wedi dechrau gosod targedau a mesurau ar gyfer gwelliant yn seiliedig ar beth ydych wedi ei ddweud wrthym – gyda chyflymder, cywirdeb a hygyrchedd yn themâu allweddol sy'n codi.

# Newyddion y DBS – Gorffennaf 2015 Print Bras

I ymateb i'ch pryderon, rydym wedi cyflwyno hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid a chwynion atodol, ac adnoddau ychwanegol ar gyfer ein tîm rheng flaen i leihau amserau aros galwadau ymhellach. Rydym yn ailasesu'r canllaw a'r wybodaeth a gyhoeddwn, fel ei fod yn fwy hygyrch i bob defnyddiwr. Bydd hyn yn cael effaith fawr ar amserau aros galwadau, gan y bydd nifer o anghenion defnyddwyr yn cael sylw ar-lein.

*Lleihad o 7% mewn ceisiadau am ailargraffiad*

*Lleihad o 81% mewn anghydfodau cod post ymgeisydd a ategir*

*Lleihad o 50% yn y gyfradd gadawiad galwadau, i lawr i 2% ym Mehefin*

Ac er bod angen i ni fod yn ofalus o hyd i gydbwyso anghenion diogelu yn ofalus gyda gwasanaeth cyflym – i sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth gywir i chi i wneud penderfyniadau addasrwydd – byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddelio â rhai o ffynonellau'r oedi mawr yma.

Bydd ein porth newydd yn ein helpu i wella cywirdeb ac amserau dychwelyd ar gyfer penderfyniadau gwahardd a thystysgrifau datgeliad, gan osgoi cynyddu ffioedd. Byddwn hefyd angen i Gyrff Cofrestredig ein helpu i leihau hyn ymhellach, trwy wneud yn siŵr bod yr holl ffurflenni cais wedi eu cydlofnodi yn cael eu hanfon atom cyn gynted â phosibl.

*Mae ein llyfrynnau gwybodaeth newydd wedi helpu ateb rhai o'r ymholiadau hyn. Rydym hefyd yn hyrwyddo eich prif ymholiadau ar ein gwefan, ynghyd ag enghreifftiau o astudiaethau achos cymhwyster, i helpu bodloni anghenion defnyddwyr ar-lein ac i leihau amserau aros galwadau ar gyfer ymholiadau cyffredinol.*

Edrychwn ymlaen at rannu mwy o ddiweddariadau gyda chi dros y misoedd nesaf, trwy e-bost a straeon newyddion ar www.gov.uk/dbs

## Diweddariadau DBS: 230 o dwyllwyr yn waeth eu byd, diolch i'n Tîm Twyll

gan Angie Geraghty, Pennaeth Ymchwiliadau Twyll

Mae ein Tîm Twyll yn gweithio'n agos gyda phartneriaid, cwsmeriaid, yr heddlu ac adrannau eraill y llywodraeth i wella deilliannau diogelu. Dyma Angie Geraghty i roi cipolwg i ni ar beth mae'r tîm wedi helpu cyflawni dros y tri mis diwethaf

Rydym eisiau sicrhau bod tystysgrifau'r DBS yn offer dibynadwy, credadwy ac ymarferol y gall cyflogwyr ddibynnu arnynt i wneud penderfyniadau addasrwydd cytbwys. Ond fe wyddom hefyd y gall ein tystysgrifau, fel gyda'r rhan fwyaf o ddogfennau, fod yn fregus yn nwylo twyllwyr.

Gyda chymhwyster statws Arbenigwr Gwrth-dwyll Achrededig Proffesiynol (ACFS), mae pob aelod o'r Tîm Twyll yn gweithio'n ddiflino i ddiogelu cywirdeb ein cynnyrch. Ar yr un pryd, maent yn gweithio gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol ar draws y wlad i ddod â thwyllwyr i gyfiawnder. Dyma ambell enghraifft o'r gwaith yma.

*Dros y 3 mis diwethaf, rydym wedi helpu sicrhau camau yn erbyn dros 230 o bobl sydd wedi cyflawni nifer o droseddau twyllodrus.*

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) ers Mawrth i gefnogi ymchwiliad amddiffyn plant i bobl a amheuir o fod â diddordeb rhywiol mewn plant, sy'n defnyddio technegau i atal eu hadnabod ar-lein. Rydym wedi cwblhau gwiriadau blaenoriaeth ar nifer o enwau a chyfeiriadau, gydag effaith uniongyrchol ar gyflymder a chyfeiriad yr ymchwiliad diogelu hwn.

Yn Ebrill, fe'n hysbyswyd gan un o'r Cyrff Cofrestredig am feddyg locwm ffug oedd yn gweithio mewn ysbyty gyda thystysgrif DBS wedi ei haddasu. Cymerom gamau ar unwaith i helpu sicrhau ei arestio, gan weithio ar y cyd â Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI), yr heddlu a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC). Ers hynny mae wedi ei gael yn euog o dwyll, gyda 21 o gyhuddiadau yn ei erbyn, ac yn aros i gael ei ddedfrydu.

Yn fwy diweddar, ym Mehefin, fe'n cynghorwyd gan swyddogion o 10 cyhuddiad o dwyll a wnaethpwyd yn erbyn ymgeisydd oedd wedi gwneud sawl cais yn defnyddio pasbort Ffrengig a cherdyn Yswiriant Gwladol ffug. Roedd yn gweithio fel gofalwr yn ardal Llundain ac fe'i disgwylir yn ôl yn y Llys yng Ngorffennaf.

Chwiliwch am ragor o straeon am gyflawniadau ein Tîm Twyll yn y rhifynnau o Newyddion y DBS yn y dyfodol.

Os ydych yn amau unrhyw weithgaredd twyllodrus yn ymwneud â phrosesau'r DBS, anfonwch e-bost at [FDIT@dbs.gsi.gov.uk](mailto:FDIT@dbs.gsi.gov.uk)

## Diweddariadau DBS: Estyn allan

gan Pukul Rana, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliad

Wedi bod yn y swydd am ychydig fisoedd, mae Pukul Rana wedi bod yn cwrdd â chi i weld beth sydd gennych i'w ddweud.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn gwneud yr hyn a addawom rai misoedd yn ôl: dod allan i arddangosfeydd a digwyddiadau sector, i wrando ar eich syniadau a heriau.

Rydym wedi bod ar hyd a lled y wlad yng nghynhadledd "Pa mor ddiogel yw ein plant" yr NSPCC, cynhadledd genedlaethol y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO), a chynhadledd genedlaethol y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA). Roedd yn fraint i gwrdd ag a siarad â chymaint o bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau o ddydd i ddydd, ac i gael gwybod mwy am sut allwn ni'ch helpu.

Rydym yn datblygu rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer y flwyddyn nesaf, felly os ydych chi'n credu bod yna arddangosfa neu gynhadledd y dylem ei mynychu, anfonwch e-bost at communications@dbs.gsi.gov.uk

Tra ar y ffordd, buom yn profi ein 4 cyhoeddiad newydd, yn llawn dop o'r wybodaeth y gofynnoch i gael gweld:

Gwiriadau DBS: astudiaethau achos

Gwaharddiadau DBS: cyfeirio rhywun

DBS: pwy ydyn ni a beth ydym yn wneud

Proses ymgeisio datgelu ar gyfer gwirfoddolwyr

Er ein bod wedi cael adborth arbennig hyd yn hyn, byddem yn hoffi gwybod beth yw eich barn – yn ogystal ag unrhyw ychwanegiadau i'r casgliad yr hoffech eu gweld yn y dyfodol.

I rannu eich syniadau neu i ofyn am gopi caled o'r llyfrynnau, anfonwch e-bost at communications@dbs.gsi.gov.uk

## Beth oeddech CHI eisiau ei wybod – tri phrif ymholiad y chwarter hwn

*Ein rhifau ffôn newydd:*

*Llinell gymorth y DBS: 03000 200190*

*Llinell Iaith Gymraeg: 03000 200191*

*Minicom: 03000 200192*

**A oes rhaid i ymgeisydd o dramor gael gwiriad DBS?**

Nid pob tro. Fe ofynnir i ymgeiswyr gael gwiriad DBS yn unol â pholisi AD eu cyflogwyr.

Weithiau mae'n rhan ofynnol o'r amodau a thelerau recriwtio, ond bydd rhai cyflogwyr angen dilyn y rheolau a sefydlir gan eu corff llywodraethu a rheoliadau statudol. Ble mae hynny'n berthnasol, bydd angen gwiriad DBS cyn y gellir dechrau'r gyflogaeth, p'un a yw'r ymgeisydd o dramor neu o'r Deyrnas Unedig.

Bydd angen i chi sicrhau eich bod wedi edrych ar ddogfennau hunaniaeth gwreiddiol yr ymgeisydd tramor, cyn cyflwyno'r cais am wiriad DBS.

Er nad yw'n cymryd lle gwiriad DBS, gallwch hefyd ofyn i ymgeisydd o wlad dramor gael gwiriad cofnodion troseddol, neu 'Dystysgrif o Gymeriad Da', gan ei wlad wreiddiol. Gallai hefyd fod yn bosibl cael gwiriad o'r fath trwy lysgenhadaeth berthnasol yn y Deyrnas Unedig, ond mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydsynio i hyn.

Mae prosesau yn amrywio ar gyfer gwahanol wledydd, felly ewch i GOV.UK i gael gwybod mwy am wiriadau cofnodion troseddol tramor.

**Rydw i wedi diswyddo un o'n cyflogeion o weithgaredd a reoleiddir yn ddiweddar. Rydw i wedi hysbysu tîm diogelu'r awdurdod lleol. Oes angen i mi wneud unrhyw beth arall?**

Oes. Yn ogystal â hysbysu'r rheoleiddiwr proffesiwn perthnasol neu dîm diogelu'r awdurdod lleol, rhaid i chi hefyd wneud atgyfeiriad safonol i'r DBS – mae hyn wir yn bwysig.

Os ydych chi'n gyflogwr neu'n rheolwr gwirfoddolwyr, mae'n ddyletswydd arnoch i wneud atgyfeiriad diogelu i'r DBS pan fydd rhywun yn cael ei dynnu o 'weithgaredd a

reoleiddir' oherwydd pryder diogelu. Mae hyn p'un a ydych wedi atgyfeirio'r unigolyn i reoleiddiwr proffesiynol neu dîm diogelu awdurdod lleol neu beidio.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud unrhyw atgyfeiriadau atom cyn gynted â phosibl, er mwyn i ni allu ystyried os dylid cynnwys yr unigolyn hwnnw mewn rhestr wahardd neu beidio. Mae hyn yn ein helpu i atal pobl anaddas rhag gweithio neu wirfoddoli gyda grwpiau bregus, yn cynnwys plant.

I wneud atgyfeiriad, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen a'i phostio atom, ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth ategol. Os nad ydych yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn 10 niwrnod gwaith, cysylltwch â ni ar 01325 953795 i wneud yn siŵr ein bod wedi derbyn yr atgyfeiriad.

**Rwy'n gweithio i Gorff Cofrestredig (nid cyflogwr yr ymgeisydd) ac rydych wedi ysgrifennu ataf yn ddiweddar am ragor o wybodaeth am gais DBS. Ydw i'n gallu gofyn i'r cyflogwr ateb gan mai ganddyn nhw mae'r wybodaeth?**

Na. Bydd hyn yn oedi'r cais.

Dim ond gan arweinydd neu gydlofnodydd Corff Cofrestredig allwn ni dderbyn gohebiaeth – yn benodol y sawl sydd wedi llofnodi'r cais. Ni all cyflogwyr nad ydynt yn arweinydd neu gydlofnodydd ymateb yn uniongyrchol ar gyfer esboniadau, naill ai trwy lythyr neu dros y ffôn. Mae hyn oherwydd cyfyngiadau diogelu data a'r gofyniad ar gyfer ardystiad gan y cydlofnodydd.

Pan fyddwn yn ysgrifennu atoch am ragor o wybodaeth neu eglurhad am gais DBS, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymateb yn uniongyrchol, yn hytrach na gofyn i'r cyflogwr wneud hynny. Bydd hyn yn osgoi gwrthdaro trin lluosog ac yn lleihau oedi yn y broses ymgeisio, gan ein helpu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i chi – a'r defnyddiwr terfynol.

***Os oes gennych unrhyw gwestiwn yr hoffech i ni ei drafod yn y rhifyn nesaf o Newyddion y DBS, cysylltwch trwy anfon e-bost at communications@dbs.gsi.gov.uk***